ichthus

Cylchgrawn Chwarterol Eglwys Berea Newydd, Bangor
Rhif 3 Cyfrol 8 Gorffennaf 2011

Gweinidog: Y Parchedig Eric Jones BD
Gwernyfed, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DZ Ffôn 01248 362127
e-bost:ericaval@btinternet.com

www.gofalaethbangor.org – 01248 353132 (swyddfa)

DERBYN AELODAU NEWYDD O BLITH YR IFANC

Lloyd Hardy, Elin Win, Branwen Morris Jones, Caron Pari, Morgan Williams, Cian Tudur

Gwasanaethau'r Sul

10.00 Oedfa deuluol gan gynnwys Ysgol Sul y Plant
11.00 Ysgol Sul yr Oedolion
5.30 Oedfa Nos

24 Gorffennaf	Y Parch Iorweth John Owen	
31 Gorffennaf	Y Parch Meirion Morris	
7 Awst	Parch Emlyn Richards (Undebol BN)	
14 Awst	Undebol Pendref	
21 Awst	Undebol Pendref	
28 Awst	Y Parch Elfed ap Nefydd Roberts	
4 Medi	Y Gweinidog	Cymun oedfa'r bore
11 Medi	Y Parch W I Cynwil Williams	
18 Medi	Y Gweinidog	
25 Medi	Y Parch Dafydd Andrew Jones	
2 Hydref	Y Gweinidog	Cymun oedfa'r hwyr
9 Hydref	Y Parch. R F Capon	
16 Hydref	Y Gweinidog	

Dyletswyddau

Dyddiad	**Llywydd y Pythefnos**	**Gofal y cyntedd a'r casgliad nos**
Gorffennaf 31+ Awst 7	Geraint Hughes	Wyn Griffiths
Awst 28 + Medi 4	Elizabeth Roberts	Geraint Hughes
Medi 11 + Medi 18	Cynthia Owen	Elizabeth Roberts
Medi 25 + Hydref 2	Arfon Evans	Cynthia Owen
Hydref 9 + Hydref 16	Eirian Howells	Arfon Evans

Rhoddwyr y blodau (cydlynydd: Elizabeth Roberts 01248 353915

24 Gorffennaf	Elin Walker Jones	25 Medi	Caren Lewis
31 Gorffennaf	Eirlys Jones	2 Hydref	Liz Jones
7 Awst	Sara Buchann	9 Hydref	M. Leyshon
28 Awst	Nia Williams	16 Hydref	Menai Williams
4 Medi	Lynn Jones		
11 Medi	Enyd Roberts		
18 Medi	Heulwen Maxwell		

Gofynnir i chwi ddod â'r blodau erbyn 10 o'r gloch fore Sadwrn. Os nad yw hyn yn gyfleus, ffoniwch y Gofalwyr (364094), os gwelwch yn dda.

Gair gan y Gweinidog

Er i Mawl y Plant ymddangos yn llewyrchus ym Methania Y Felinheli ym mis Mai, canran fechan o'n plant oedd yn bresennol, a gellir dweud yr un peth am yr ifanc gyda'r Mawl Modern yn yr hwyr. Roedd yr arbrawf er hynny'n llwyddiannus, a diolch ein bod wedi cael cynnig gwasanaeth organydd ifanc brwdfrydig, sef Robert Luke Jones o Lanfairfechan.

Gofynnwyd am wirfoddolwyr i helpu BARA, y mudiad sy'n helpu carcharorion a'u teuluoedd trwy gynnig cymorth i ymweld â charcharor, ond ni chafwyd unrhyw ymateb. Er i Fugeiliaid y Stryd gael ei sefydlu o ganlyniad i anogaeth o'n plith, does yna neb o'n plith yn cerdded y strydoedd. Beth y mae hyn yn ei ddweud wrthym?

Ni chafwyd ymateb ychwaith i'r gri am ragor o wirfoddolwyr i helpu gyda chasgliadau Cymorth Cristnogol. Er hynny, cafwyd gwaith clodwiw gan y rhai sy'n arfer mynd o ddrws i ddrws. Diolch o galon ichi am eich dyfalbarhad. Onid colled fawr oedd ein methiant i gynnal Gwasanaeth Cymorth Cristnogol ar y Sul? DYLEM GOFIO BOD PLENTYN YN MARW BOB WYTH EILIAD YN Y BYD O GANLYNIAD UNIONGYRCHOL I DLODI.

Mor hyfryd oedd cael bedyddio dau o rai bach, sef Hanna Mair, plentyn Gareth ac Elaine o Rhiwlas, a chwaer i Danial, a hefyd Lleu James Ifan, mab cyntafanedig Aled a Llio Ifan. Mor fawr yw ein braint, a'n cyfrifoldeb.

Braint oedd cael paratoi 6 o ieuenctid hyfryd yn gyflawn aelodau, sef Lloyd Samuel Hardy, Caron Mai Pari, Cian Tudur Sion, Branwen Morris Jones ac Elin Win Jones. Yr oedd Morgan o Fethania Y Felinheli hefyd yn y criw. Wedi'r holl ymdrech, rhaid ymdrechu'n galetach fyth i'w cadw gyda ni, a dyna her arall i bob un ohonom.

Dwi'n argyhoeddedig bod yna ddigon o bobol cymwys iawn yn ein plith i'w codi'n flaenoriaid. Gobeithio'n fawr y byddwch chwithau yn gwybod pwy ydynt, ac yn medru rhoi eu henwau ar y papur pleidleiso ar y **3ydd Sul o Fedi.**

Anfonwn ein cofion atoch chi sy'n methu â dilyn y gwersyll y dyddiau yma, yn enwedig y rhai ohonoch sydd yn yr ysbytai a'r cartrefi preswyl. Gwn eich bod yn gwerthfwarogi ein cylchgrawn yn fawr.

Dymunaf haf bendithiol i bawb ohonoch.

Eric Jones

MYFYRDOD A GWEDDI o dan ofal Lynn Jones

AMSER YN Y BANC

Dychmygwch fod yna fanc yn y dre' yn rhoi £86,400 yn eich cyfrif banc yn ddyddiol! Ond, does yr un geiniog ohono'n cael ei gario 'mlaen i'r diwrnod wedyn. Bob nos, mae'r banc yn dileu'r swm sydd heb ei ddefnyddio yn ystod y diwrnod. Beth fyddech chi'n ei wneud? Wel ia, tynnu'r cyfan allan BOB DYDD wrth gwrs!!

Mae gan pob un ohonom fanc tebyg i hwn. Enw'r banc arbennig yma yw AMSER!
Bob bore, mae'r banc yn rhoi credyd o 86,400 o eiliadau i ni. Bob nos, mae'r credyd sy'n weddill wedi ei golli, pob eiliad yr ydych wedi methu ei ddefnyddio i bwrpas da, yn wastraff.
Nid yw'r balans yn cael ei drosglwyddo.
Bob dydd mae'n agor cyfrif newydd yn eich enw.
Bob nos mae'r gweddillion yn mynd i'r gwynt.
Os ydych yn methu defnyddio'r blaendal, chi sydd ar eich colled.
Does dim troi 'nôl.
Does dim benthyciad ar gyfer yfory.
Mae'n rhaid i chi fyw ar gredyd heddiw.
Buddsoddwch eich credydau heddiw i wneud y mwyaf o **iechyd**, **hapusrwydd** a **llwyddiant**!
Mae'r cloc yn troi.
Gwnewch y mwyaf o heddiw.



I sylweddoli'r gwerth sydd mewn BLWYDDYN, gofynnwch i fyfyriwr druan sydd wedi methu cyrraedd y graddau.

I sylweddoli'r gwerth sydd mewn MIS, gofynnwch i fam sydd wedi cael babi bach yn gynnar.
I sylweddoli'r gwerth sydd mewn WYTHNOS, gofynnwch i olygydd papur newydd wythnosol.
I sylweddoli'r gwerth sydd mewn MUNUD, gofynnwch i'r person sydd newydd golli'r trên.
I sylweddoli'r gwerth sydd mewn EILIAD, gofynnwch i'r person sydd newydd osgoi damwain.
I sylweddoli'r gwerth sydd mewn UN CANRAN O EILIAD, gofynnwch i'r person dderbyniodd y fedal 'arian' yn y gemau Olympaidd.

Trysorwch bob eiliad 'da' chi'n ei gael!
Nid yw amser yn aros am neb.
Mae ddoe yn hanes, yfory yn ddirgelwch, a heddiw'n **rhodd**!

'Pob eiliad sydd yn ticio sy'n rhodd gan Dduw,
Pob eiliad sydd yn ticio sy'n rhodd gan Dduw,
Pob eiliad sydd yn ticio sy'n rhodd gan Dduw,
Popeth ddaw o ddwylo yr Iôr.'

CIC BANG A CYTUN YN Y CARNIFAL

Criw CIC Bang mewn cydweithrediad â Chytun wedi eu gwisgo fel anifeiliad ar Arch Noa yng Ngharnifal Bangor 2011

CYLCH Y CHWIORYDD
Adroddiad Gwenno Pritchard

Nos Fercher, Ebrill 6ed, cynhaliwyd Noson Goffi ar y cyd gyda CIC Bang. Cafwyd ymateb da i'r cais am wirfoddolwyr, ac am gyfraniadau i'r stondin. Daeth nifer dda draw i'r festri i gael paned a sgwrs, ac i brynu'r teisennau a'r nwyddau. Gwnaed elw o £200, ac roedd aelodau CIC Bang yn fodlon iawn gyda'u gwerthiant a'u helw nhw. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo, a'r rhai a ddaeth draw i'n cefnogi.

Nos Fercher, Mai 4ydd dathlwyd diwedd y tymor drwy fynd am bryd o fwyd i fwyty Coleg Menai, yn yr hen ysgol Friars. Daeth nifer dda ynghyd ar noson braf i fwynhau pryd o fwyd ardderchog. Llywydd y noson oedd Cynthia Owen. Diolchodd i bawb am eu gwasanaeth a'u presenoldeb yn y cyfarfodydd drwy'r tymor. Apeliwyd am fwy o aelodau i fynychu'r cyfarfodydd, gan nad yw nifer o'r cyn aelodau yn gallu dod erbyn hyn.

Diolchwyd hefyd am yr ymateb i gasgliad y lloches, y noson goffi, a chasgliad y genhadaeth. Llwyddwyd i gyfrannu £500 at y genhadaeth eto eleni. Mae blychau cenhadol ar gael gan y trysorydd, petai unrhyw un yn dymuno cael un.

Trefnwyd cyfarfod i drefnu gweithgareddau'r tymor nesaf, Nos Fercher, Mehefin 8fed.

Diolch i'r panel ac i bawb a gyfrannodd mor barod i'r rhifyn hwn – trwy ysgrifennu, golygu, tynnu lluniau, gwirio'r testun, dylunio a gosod y cyfan. Gwerthfawrogir yn fawr eich parodrwydd i rannu eich doniau er mwyn hyrwyddo gwaith yr eglwys.

Cymorth Cristnogol 2011

Fe gynhaliwyd yr arfer o fynd o amgylch yr ardal yn gofyn am gyfraniad tuag at Cymoth Cristnogol yn ail wythnos mis Mai eto eleni.

Mae'r wythnos yn fwrlwm o weithgaredd gan gychwyn gyda gwasanaeth byr yn Berea Newydd cyn cael cinio syml o fara a chaws . Er bod y niferoedd yn fychan eleni, fe lwyddwyd i gasglu bron i £500 ar y diwrnod.

Mae'r holl wlad wedi ei rhannu yn ardaloedd gydag eglwysi o bob enwad yn cymryd cyfrifoldeb dros gnocio drysau a rhoi'r cyfle i bobol roi tuag at y trueiniaid yn y trydydd byd. Eleni fe fu canolbwyntio ar drigolion Nicaragua. Sylweddolir nad peth hawdd ydi mynd a chnocio ar ddrws dieithr heb wybod beth fydd yr ymateb. Ond o brofiad, gallwn ddweud ei fod, ar y cyfan, yn bleserus gyda'r person yn rhoddi yn ddirwgnach a ninnau'n cael teimlad o genhadu yn y gymuned. Mae'n wir y ceir ambell un sydd yn gwrthod rhoi ond, o leiaf, fe gawsant gyfle.

Teimlid eleni fod y dirwasgiad yn brathu ac nad yw pobol yn gallu cyfrannu cymaint ond rhaid sylweddoli bod hyd yn oed y pisyn pum ceiniog yn werthfawr i'r achos hwn. Y mae'r ymgyrch hefyd yn gyfle i gael arian rhad oddi wrth y llywodraeth trwy Rodd Gymorth gan drethdalwyr.

Dymunwn ddiolch o galon i'r aelodau a fu mor barod i fynd o amgylch y strydoedd eto eleni a diolch i'r rhai a drefnodd y cinio bara a chaws a hefyd yr holl weithgareddau eraill fel y casglu ar y Stryd Fawr a'r Bore Coffi yng Nghanolfan yr Esgobaeth.

Apeliaf eto eleni ar unrhyw aelod sydd yn teimlo yr hoffai fod yn rhan o'r gwaith pwysig yma i gysylltu ac fe fyddwn yn dra diolchgar am ei gymorth.

Mae cyfanswm o £1,855 wedi ei godi i'r coffrau trwy ymdrechion Eglwys Berea Newydd ac fe wyddom y gwnaiff hyn wahaniaeth mawr i drigolion Nicaragua.

John Wynn Jones ac Astra Thomas.

A GLYWSOCH CHI HON?
dan ofal Dr Bruce Griffiths ac Ann Corkett

Galwodd gweinidog heibio un o'i braidd, a churo wrth y drws. Nid atebodd neb, ond synhwyrai fod rhywun yno, ac yn ddig braidd gadawodd ei gerdyn ymweld, gan ysgrifennu arno "Datguddiad iii : 20" ("Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo; os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef ac a . . . . ".

Y Sul wedyn, a'r gynulleidfa'n ymadael, rhoddodd un o'r gwragedd iddo gerdyn yn dwyn y neges, "Genesis iii : 10" ("Dy lais a glywais yn yr ardd; a mi a ofnais, oblegid noeth oeddwn, ac a ymguddiais.").

ENWAU LLEOL dan ofal Dr Glenda Carr (ail yn y gyfres)

Y Garth

'Rydym wedi hen arfer â cherdded neu yrru ar hyd Ffordd Garth a Ffordd Garth Uchaf ym Mangor. O ddilyn y ddwy ffordd i'w pen byddem ar un adeg yn cyrraedd fferi'r *Garth* a gwesty'r *Garth,* a phe baem wedi croesi ar y fferi i Fôn byddem yn glanio yng *Nglyn Garth.* Ond a ydym wedi ystyried beth yn hollol oedd y *garth*? Mae'n elfen hynod o gyffredin mewn enwau lleoedd yng Nghymru. O deithio ychydig filltiroedd gallwn ymweld â *Thre-garth*; ceir *Pen-y-garth, Ael-y-garth* a *Bron-y-garth* yng Nghaernarfon, a *Mynydd Llwydiarth* ger Pentraeth ym Môn. Os awn i bori yn nhudalennau *Geiriadur Prifysgol Cymru* (rhywbeth yr wyf fi yn treulio llawer iawn o amser yn ei wneud!) fe welwch fod mwy nag un ystyr i'r enw *garth.* Gyda llaw, y ffurf luosog yw *geirth,* sydd yn air dieithr iawn. Un ystyr yw 'lle amgaeedig', sef rhyw fath o iard neu gorlan. Mae'n bosibl mai hyn yw'r ystyr mewn llawer iawn o ffermydd o'r enw *Garth* ar hyd a lled Cymru. Dyma'r ystyr hefyd mewn geiriau megis *buarth,* sef lle amgaeedig i gadw'r buchod, a *lluarth,* sef lle amgaeedig i dyfu llysiau. Ond ystyr wahanol iawn sydd i'r *garth* ym Mangor. Yr ystyr arall yw 'cefnen o dir' neu 'ucheldir' neu 'gallt', bob un ohonynt yn ddisgrifiad teg o *Garth* Bangor. Yn aml iawn wrth ystyried enw lle mae'n rhaid inni ddinoethi'r man arbennig dan sylw o 'hagrwch cynnydd' chwedl R. Williams Parry. Dychmygwch safle Bangor ganrifoedd maith yn ôl. Yn y canol mae afon Adda (er nad dyna oedd ei henw bryd hynny) yn llifo trwy'r dyffryn cul. Ar y naill ochr mae Mynydd Bangor ac ar y llall mae cefnen hir goediog yn rhedeg i lawr at afon Menai. Dyma'r *Garth.* Gellir ei gweld o hyd fel llethr coediog ym mharc y Coleg, o leiaf yn yr hyn sydd ar ôl ohono bellach.

Erbyn heddiw *Garth* yn syml yw'r enw ond yr oedd ganddo enw llawer mwy persain ar un adeg, sef *Garth Branan.* Onid yw'n rhyfedd fod enw mor ddymunol wedi diflannu'n llwyr o gof trigolion Bangor? Oni fyddai *Garth Branan* yn enw addas ar yr anghenfil enfawr sydd yn cael ei godi ym mharc y Coleg ar hyn o bryd, ar union safle *Garth Branan* ei hun, yn hytrach na'r *Pontio* diddychymyg? Ond efallai nad yw'n syniad mor dda , hynny rhag ofn iddo ddirywio ar lafar i fod yn rhyw erchyllbeth megis 'The Garth Complex'.

Mae gennym gyfeiriadau cynnar at *Garth Branan* yn llawysgrifau Bangor ac ym mhapurau'r Penrhyn yn adran archifau'r Brifysgol. Y ffurf yn 1431 oedd *Garth Vranan,* a *Karth Branan* yn 1498. Mae llawer o'r cofnodion cynharach yn cyfeirio at eglwys neu gapel: 'ecclesia Sanctae Mariae de Garth Branan', sef eglwys Fair Fendigaid o Garth Branan. Cyfeirir ati yn Gymraeg fel *Llanfair Garth Branan* ac ambell dro fel *Erw Fair.* O leiaf mae'r enw *Erw Fair* wedi ei gadw ar dŷ yn Ffordd Garth. Diflannodd yr eglwys hon yn llwyr. Yn ôl Esgoblyfr yr Esgob Anian (y 'Bangor Pontifical' sydd yn dyddio o tua 1320 ac a fu yn y newyddion yn ddiweddar pan gafodd ei ailgysegru gan yr Esgob presennol ar ôl iddo gael ei atgyweirio a'i roi ar ffurf ddigidol) cynhaliodd Anian synod o offeiriaid yr esgobaeth yn yr eglwys hon yn 1291. Ymddengys fod adeilad yr eglwys yno yn 1486 ond nid oes unrhyw gyfeiriad pendant ato ar ôl hyn. Mae'n debyg fod Llanfair Garth Branan yn rhy agos at yr eglwys gadeiriol, a oedd erbyn hynny yn cael ei hehangu, i fedru cystadlu â honno.

Pwy neu beth oedd *Branan*? 'Dwn i ddim. Mae'n swnio rywsut fel enw personol. Tybed ai rhywun o'r enw *Branan* oedd perchennog y tir ar un adeg? Y cwbl a wn yw fod *Garth Branan* yn enw hyfryd sydd yn haeddu cael ei gadw mewn cof rywfodd neu'i

gilydd yn ninas Bangor.

Hirael

Mae Syr Ifor Williams wedi bod o fy mlaen i yma eto. Yn wir, mae'n anodd iawn trafod unrhyw enw lle nad yw Syr Ifor neu'r Athro Melville Richards wedi ei drafod ar ryw adeg. Mae pawb sydd wedi gweithio ym maes enwau lleoedd ers canol yr ugeinfed ganrif wedi pwyso'n drwm ar waith y ddau ysgolhaig disglair hyn. A chan fod y ddau wedi gweithio ym Mangor bu'r ardal hon o ddiddordeb arbennig iddynt. Er i Syr Ifor drafod enw *Hirael* yn ei ragymadrodd i *Enwau Lleoedd* efallai y byddai'n werth ymweld ag ef unwaith eto gan fod hanes pur ddiddorol i ddatblygiad yr enw hwn.'Rydych i gyd yn gyfarwydd ag ardal Hirael. Os ewch ar hyd Lôn Glan Môr, neu Beach Road i'r Bangoriaid, rydych yn dilyn arfordir bae Hirael. A bae ar ffurf cryman sydd yma. Dyna a barodd i Syr Ifor a llawer un arall ddehongli enw *Hirael* fel *hir ael* gan fod hyn yn ddisgrifiad da iawn o'r lle. Peidiwch â meddwl am funud fy mod yn dibrisio Syr Ifor wrth gyfeirio at ambell gam gwag a wnaeth yn ei ddehongliadau. Wedi'r cyfan, ef ei hun sydd wedi tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel rhybudd i ni i gyd beidio â bod yn fyrbwyll a chymryd dim yn ganiataol. Mae gennyf barch aruthrol i Syr Ifor am ei waith anhygoel ar enwau lleoedd ac ar olygu'r hen destunau dyrys. Hawdd iawn yw maddau ambell i gamddehongliad digon dealladwy.

Yr oedd Syr Ifor yn ymhel â'r enwau lleoedd hyn ar yr un adeg ag yr oedd Dr Tom Richards wrthi'n adeiladu casgliad archifau'r Brifysgol. Dyma'r cyfnod pan ddaeth nifer o gasgliadau gwerthfawr iawn i Lyfrgell y Coleg, casgliadau o bapurau stadau mawr megis y Penrhyn. 'Roedd y rhain yn cynnwys gweithredoedd a dogfennau cynnar a oedd yn llawn o gyfeiriadau at enwau lleoedd yr ardal. Tasg Doc Tom oedd catalogio'r dogfennau hyn ac mae'n werth mynd i weld rhai o'i gatalogiau yn archifau'r Coleg. Maent yn fympwyol ond yn ddifyr tu hwnt: mae'n trin a thrafod yr uchelwyr canoloesol yn gartrefol braf fel pe bai'n byw drws nesa' iddyn' nhw. Bob hyn a hyn yn y teipysgrif cewch nodyn bach ychwanegol yn ei lawysgrifen gywrain. Gellir dychmygu Syr Ifor yn crynu o ofn a chwilfrydedd wrth weld Doc Tom yn brasgamu i mewn i'w ystafell yn chwifio darn o bapur, gan y gwyddai y byddai'n siŵr o danseilio rhyw ddamcaniaeth neu ddatgelu rhyw drysor newydd. Digwyddodd hyn gydag enw *Cae Llepa* ac fe ddigwyddodd eto gydag enw *Hirael.* Druan o Syr Ifor a'i *hir ael.* Yr oedd Doc Tom wedi dod o hyd i'r ffurf *Hirerw.* Nid yw Syr Ifor yn nodi o ble y cafodd y ffurf hon, ond o bori yn y llawysgrifau gallaf ddweud wrthych fod y ffurf *hirerow* wedi ei chofnodi ym mhapurau Baron Hill yn 1568 ac eto fel *hir erowe* yn 1576–7.

Mae *Hirerw* yn enw digon naturiol: wedi'r cyfan ceir *Longacre* yn Llundain. Y broblem rŵan yw sut y trodd *hir erw* yn *Hirael.* Fel y dangosodd Syr Ifor, yn y cyfuniad *Hirerw* mae'r acen yn disgyn ar y sillaf gyntaf, sef *Hìrerw.* Mae tuedd yn y Gymraeg i golli'r *w* derfynol mewn gair hwy nag unsill. Yn yr un modd trodd *arddelw* yn *arddel* a *cefnderw* yn *cefnder.* Felly rŵan mae gennym *Hirer* ond mae'na dipyn o ffordd i fynd eto cyn cyrraedd *Hirael.* Mae pobl Bangor yn tueddu i droi *e* yn *a,* felly 'rydym wedi mynd mor bell â throi *Hirer* yn *Hirar* erbyn hyn. Nid yw pobl Bangor chwaith yn hoffi cael dwy *r* yn rhy agos at ei gilydd. Dyna pam mae'n haws gennym ddweud *cornel* yn hytrach na *corner.* Felly mae *Hirar* yn troi'n *Hiral.* Datblygiadau naturiol a ddigwyddodd hyd yn hyn. Ond yn awr mae rheswm yn dod i mewn ac nid yw hynny bob amser yn beth da mewn enw lle. Mae'r ffurf *Hiral* yn dechrau poeni'r gwybodusion (pobl beryglus yw'r rhain). Maent yn edrych tua bae Hirael, a chan eu bod yn ddiau yn bobl sensitif a

barddonol eu hanian maent yn gweld siâp *ael hir* ac yn penderfynu mireinio'r enw i gydfynd â'u gweledigaeth ac ailfedyddio'r ardal yn *Hirael.* Yn anffodus, roeddynt yn anghywir. Syrthiodd Syr Ifor a llawer un arall i'w magl. Wedi'r cwbl os dywedwch rywbeth yn ddigon aml a chyda digon o arddeliad mae rhywun yn siŵr o'ch coelio.

ETHOL BLAENORIAID NEWYDD – Medi 18fed

Y mae yna nifer o ystyron i'r gair blaneor. Un o'r hen ystyron ydi bod yn arweinydd, yn bennaeth, neu fod ar y blaen. Mae Duw yn siarad gyda Samuel ac yn dweud y daw gwr o lwyth bychan Benjamin i'w weld drannoeth, ac y bydd y proffwydi yn ei eneinio 'yn flaenor ar fy mhobl Israel'. (1 Samuel 9 : 16) Saul, brenin cyntaf Israel oedd y gwr hwnnw.

Rhaid disgwyl hyd y ddeunawfed ganrif, 1793, cyn gweld y gair yn ymddangos fel 'arweinydd' yn ein llenyddiaeth.

Yn 1834, gwelwyd y gair 'blaenores' – gwraig sy'n arwain yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Heddiw ym Merea Newydd mae blaenor :

yn un o gyd-weithwyr y Gweinidog
yn bont rhwng elfennau gwahanol yr eglwys a'r enwad.
yn glust sy'n gwrando ar yr aelodau
yn ymwelydd ag aelwydydd yn ôl y gofyn
yn rhan o rai o bwyllgorau'r eglwys
yn rhan o addoli yr eglwys ambell dro

Nid oes disgwyl i bob un gyflawni popeth ond bydd cyfle i gyfrannu tuag at agweddau sy'n apelio.

Mae 16 o flaenoriaid a 5 o flaenoresau ym Merea Newydd (cyfanswm o 21). Hyd y gwyddom, y mae 19 o'r nifer hwn wedi cyrraedd oed ymddeol, gyda rhai wedi ymddeol ers blynyddoedd lawer. Rydym angen rhai o'r newydd i fwrw eu prentisiaeth yng nghwmni'r rhai profiadol. Felly, awn ati o ddifri i ethol rhai newydd ar **Fedi y18fed.**

R Maldwyn Thomas

Morris Williams
(un o hogia Capel Y Graig)

Mae ei enw fo wedi bod efo mi ers blynyddoedd. Ar y wal wrth ochr y pulpud yng Nghapel Y Graig yr oedd yma gofeb am aelodau o'r gynulleidfa a gafodd eu lladd yn y ddau ryfel byd.

Yn eu mysg y mae enw Morris Williams, dyn ifanc, aelod yng Nghapel y Graig, a gafodd ei ladd yn y Rhyfel Mawr. Fe gawsom ni wers Ysgol Sul am y gofeb yn nosbarth y bobl ifanc ar Sul y Cofio flynyddoedd maith yn ôl.

Ac yna wedi tawelwch, dyma enw Morris Williams yn dod i sylw unwaith eto. Yn rhifyn Ebrill 2011 o *Papur Dre* y mae'r hanesydd lleol campus hwnnw, T. Meirion Hughes, yn ysgrifennu am bethau a oedd wedi cael eu cadw mewn cist yn perthyn i'w deulu. Yno y mae yna Destament Newydd – dyma eiriau Meirion Hughes amdano.


Cyflwynwyd y Testament hwn gan
EGLWYS Y GRAIG, GER BANGOR,
i
Mr. Morris Williams
pan yn gwasanaethu ei Wlad fel Milwr,
gyda dymuniad am ei lwyddiant, ac i hwn
fod yn gyfrwng bendith iddo am ei oes.
Mehefin 1917.

'….wedi cael ei bastio oddi mewn i'r clawr roedd y geiriau hyn :

> "Cyflwynwyd y Testament hwn gan Eglwys Y Graig, Bangor i Mr Morris Williams pan yn gwasanaethu ei Wlad fel Milwr, gyda dymuniadau am ei lwyddiant, ac i hwn fod yn gyfrwng bendith iddo am ei oes. Mehefin 1917"

Roedd yr enw yn ddirgelwch i Meirion. A oedd Morris Williams yn perthyn i'w deulu? 'Ni wn ychwaith a fu y gwr hwn farw yn ystod y Gyflafan Fawr ac i'r Testament gael ei ddychwelyd i'w deulu yn ôl yr arferiad bryd hynny…. Yn ôl y sôn, byddai bob amser yn cario'r Testament ym mhoced chwith y tiwnic, gyferbyn â'r galon a bod arwyr wedi cael eu saethu a'r fwled wedi cael ei hatal gan y Testament rhag niweidio'r unigolyn.'

Does yna ddim ôl bwled ar Destament Newydd Morris Williams.

Bellach y mae gen i ychydig bach o wybodaeth am Morris Williams, y milwr o Gapel Y Graig.

Mab Elen a William Williams, Bron y Graig, Treborth oedd o. Coediwr ar Stad y Faenol oedd y tad, wedi cael ei eni ym Mangor yn 1847. Roedd Elen yn hannu o Frynsiencyn, yn bum mlynedd yn iau na'i gwr, y teulu yn byw yn Nhreborth. Ac yna fe ddaeth y rhyfel i lannau'r Fenai.

‘Mi ydw i wedi listio.’

Yn y Borth, y digwyddodd hynny, yn 1917 efallai. Ymuno â’r Gatrawd Gymreig a chael rhif 202897. Yna y mae yn filwr troed rhif 115741, yn ymladd yn Fflandrys a Ffrainc.

Roedd yna frwydr ffyrnig ar 21 Awst 1918 pan ymosododd y Fyddin Brydeinig a cheisio ennill y Rheilffordd rhwng Albert a Arras yn nhir y Somme.

Saith ar hugain oed oedd Morris Williams ar y dydd hwn. Ei fam sy’n derbyn y telegram ar riniog Bron Y Graig. Roedd y tad yn ei fedd erbyn hyn. Fe laddwyd nifer o filwyr ym mrwydr Albert, mae’r beddau yn rhes wen yn mynwent Forceville. Yno y mae bedd Morris Williams o Gapel Y Graig a Theborth, Bangor.

Lladdwyd 44 o hogiau capeli Cymraeg Presbyteraidd Bangor yn y Rhyfel Mawr (1914 – 1919).

Mae yna goffâd newydd am y milwyr a laddwyd yn y ddau ryfel byd ar wal yng nghapel Berea Newydd. Diolch am y gofal am y galar nad yw’n darfod.

Rhai manylion.

1. Cyfrifiad 1901
2. Cofrestr milwyr y Deyrnas Unedig a laddwyd yny Rhyfel Mawr
3. Cofrestr mynwent Forceville, y Ffrainc
4. Diolch yn fawr i T. Meirion Hughes am ei erthygl ym Mhapur Dre, Ebrill 2011 ac am ei ymchwil gofalus, ac am ganiatâd i gyhoeddi’r lluniau.

R. Maldwyn Thomas

Dysgu Plant a Golchi Eliffantod

Fy Mhythefnos yn Nepal

Ddechrau fis Mehefin, cychwynnais ar fy nhaith o faes awyr Llundain i brifddinas Nepal, Kathmandu. Ychydig a wyddwn mai'r bythefnos oedd o'mlaen fyddai'r bythefnos anoddaf imi erioed ei phrofi.

Ar âl cael ein croesawu gyda phryd bwyd traddodiadol mewn bwyty yn Kathmandu, roedd rhaid paratoi am daith oddeutu chwe awr ar fws i Pokhara, lle byddwn i'n cychwyn ar fy ngwaith fel athrawes mewn ysgol gynradd. Taith hynod anesmwyth a gefais o ganlyniad i gyflwr echrydus y ffyrdd.

O'r diwedd, dyma gyrraedd pentref Thulaket, sydd awr o daith o Pokhara. Yno cawsom groeso cynnes gan y teulu oedd yn cynnig llety inni. Dhurba oedd gŵr y tŷ, dyn oedd yn amlwg yn uchel ei barch yn y pentref, yn athro yn yr ysgol uwchradd leol ac yn cyfrannu llawer o fewn y gymuned. Bychan iawn oedd y tŷ. Pedair 'stafell, gan gynnwys cegin. Cawsom ein harwain i stabl a oedd yn gysylltiedig â'r tŷ – dyma fyddai'n cartref am y bythefnos nesaf. A'r buffalos, drws nesaf, yn gymdogion.

Roedd rhaid deffro am chwech y bore yn ddyddiol er mwyn agor yr ysgol feithrin. Roedd rhai o'r plant yn fwy awyddus i ddysgu nag eraill! Yna, nôl , i ni i gael 'Dhal Bhat', sef ein brecwast, ein cinio a'n swper. Reis gyda saws a 'chydig o lysiau yw'r pryd hwn. Doeddwn i erioed wedi b'yta pryd o'r fath mor gynnar yn y bore.

Wedi brecwast, roedd y diwrnod yn cychwyn go iawn. Cerdded dwy filltir i fyny'r bryn er mwyn cyrraedd yr ysgol gynradd. Yr haul crasboeth yn gwneud pob cam yn fwy blinedig. Ond roedd yr olygfa o'r top yn wefreiddiol, y coedwigoedd a'r llond llaw o dai oedd yn y pentref, yn edrych fel llun wedi ei beintio.

Cawsom seremoni i'n croesawu yn ystod y diwrnod cyntaf o ddysgu, eistedd yng nghanol y buarth gan wrando ar y plant yn canu ac yn dawnsio o'n blaenau. Roeddwn i'n teimlo fel petawn i wedi ennill y goron ac yn edrych ar y ddawns flodau.

Ar ôl diwrnod caled o waith, cwsg oedd yr unig beth ar fy meddwl. Ond rhai nosweithiau, mi fyddai'n amhosib syrthio i gysgu, gyda phob math o drychfilod yn crwydro ar hyd y waliau, a sŵn mwmial i'w glywed o'r tu allan.

† Pleser oedd gweithio gyda'r plant yn yr ysgol, gyda brwdfrydedd ac awydd ambell ddisgybl yn rhoi gwên lydan ar fy wyneb.

Daeth yr amser i ffarwelio gyda'r ysgol a'r plant, ac i ymadael â'r teulu oedd wedi bod mor garedig â chynnig llety inni am ddyddiau.

Chitwan oedd y stop nesaf, lle mae'r trychfilod yn fwy a'r tymheredd yn uwch! Cawsom amser gwych yn golchi'r eliffantod, er imi gael andros o fraw pan gododd un ohonyn nhw ar ei ddwy droed gan fy ngadael i'n llithro oddi ar ei gefn yn ôl i'r afon. Roedd natur a dyn yn un yma a phobl yn cerdded y strydoedd ynghyd â'r eliffantod.

Daeth yr amser i fynd adref a ffarwelio â phrydferthwch Nepal. Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth y daith yn antur fythgofiadwy.

CASI WYN

MASNACHU TEG ®

gwell amodau
i Gynhyrchwyr
y Trydydd Byd

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

ROTA DARLLEN Y PLANT

04.09.11	Caneuon Ffydd	274	Carwyn Siôn
	Salm	100	Siwan Williams
11.09.11	Caneuon Ffydd	798	Dewi Jones
	Salm	106 : 1 – 3	Owain Jones
18.09.11	Caneuon Ffydd	198	Iolo Jones
	Salm	113 : 1 – 4	Gwen Roberts
25.09.11	Caneuon Ffydd	141	Gwion Siôn
	Salm	117	Guto Davies
02.10.11	Caneuon Ffydd	147	Thomos Ifan
	Salm	118 : 1	Meilir Lynch
09.09.11	Caneuon Ffydd	397	Efa Williams
	Salm	23	Lois Wiliam
16.09.11	Caneuon Ffydd	374	Alys McCann
	Salm	66 : 1 – 4	Erin Hughes

Y criw yn mwynhau twrnament 'DodgeBall' yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Y GADAIR DDU GYNTAF
TALIESIN O EIFION (1820 - 1876)

Ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Wrecsam, priodol fyddai olrhain hanes enillydd Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yno yn 1876. Honno oedd y Gadair Ddu gyntaf.

Yr bardd buddugol oedd Thomas Jones (Taliesin o Eifion), a anwyd Medi 13, 1820, yn Nhŷ'n-y-Gors (Bwthyn-y-Rhos heddiw) ar dir Beudymawr ym mhlwyf Llanystumdwy, Eifionydd. Deuai o deulu cerddorol.

Pan oedd Thomas yn chwe blwydd oed symudodd y teulu o Eifionydd i Langollen, lle bu'r tad yn beintiwr a phlymer. Fe'i dilynwyd yn y gwaith gan ei fab. Anfonwyd Thomas gan ei ewythr Owen Owen, brawd ei fam, i Ysgol Grove Park, Wrecsam. Aeth Thomas ymlaen i arbenigo ar beintio arwyddion tafarndai a baneri. Yn ei oriau hamdden ei brif ddiddordebau oedd cynganeddu, hela, a physgota yn y Ddyfrdwy ger ei gartref, Min-y-Nant. Yn 1855 ymbriododd ag Elizabeth Jane Kelly a ganwyd iddynt saith o blant.

Cadwodd Thomas Jones ei gysylltiad ag Eifionydd am flynyddoedd drwy ei ffrind Richard Lloyd y crydd a'i fab (ewythr a chefnder David Lloyd George). Anfonai'n aml atynt am gefnogaeth a chyngor.

Cadair Ddu Eisteddfod Wrecsam 1876

Trwy flynyddoedd o waeledd daliodd Thomas Jones i gynganeddu a chystadlu gan ennill mewn sawl eisteddfod ledled Cymru. Yn 1876, a'r Eisteddfod Genedlaethol yn y cyffiniau, penderfynodd gystadlu am y Gadair ond gyda'i iechyd yn dirywio'n gyflym methodd â gorffen ysgrifennu'r Awdl yn ei lawysgrifen ei hun a bu rhaid gofyn am gymorth. Bu farw Mehefin 6 yn 56 blwydd oed ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys St. John, Llangollen.

Ar ddydd lau'r cadeirio 'roedd torf wedi ymgynnull ym mhabell yr Eisteddfod i wrando ar Gwalchmai yn traddodi'r feirniadaeth. O'r saith ymgais, yr awdl 'Helen Llwyddawg' *[sic]*, gan Eusebius, oedd yr orau. Gofynnodd yr Archdderwydd, Mynyddog, ddwywaith i'r bardd godi ar ei draed ond bu tawelwch cyn i'r Archdderwydd gyhoeddi mai'r bardd buddugol oedd Thomas Jones (Taliesin o Eifion) a fuasai farw ddeufis ynghynt.

Aeth gwefr drwy'r dyrfa ac arweiniwyd y beirdd yn ôl i'r llwyfan gan Hwfa Môn a Gwalchmai, bob un yn gwisgo band crêp du, a J.R.Elias - y Thesbiad - yn cario'r wobr o Fedal Aur ac £20 ar glustog ddu a'i gosod ar y Gadair oedd dan orchudd mantell ddu.

Darllenwyd tri englyn; dyma un ohonynt:

'Taliesin o fin ei fedd - ragorodd
Ar gewri'r gynghanedd,
A chael drwy gynrychioledd

Barhaus hawl i wobr ei sedd.'

Gyda chryn deimlad y canodd y Bencerddes Madam Edith Wynne dri phennill o 'Dafydd y Garreg Wen' i gyfeiliant Pencerdd Gwalia (Thomas Jones) ar y delyn. Diweddwyd y seremoni deimladwy gyda'r seindorf yn chwarae'r 'Ymdeithgan Angladdol yn Saul'.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach claddwyd ei weddw, ac mae obelisg o farmor du ar eu bedd. Yn 1922, cyhoeddwyd *Gweithiau Taliesin o Eifion* gan ei fab John Llywelyn Jones.

Hynt a helynt y Gadair wedi hynny.

Mae'n debyg i'r teulu ei chadw am flynyddoedd, yng Nghaerffili. Awst 18, 1940, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel yr Annibynwyr, Glan'rafon - sef hen gapel Taliesin a'i deulu - ar lan y Ddyfrdwy yn Llangollen. Yno trosglwyddwyd y Gadair Ddu i'r capel gan y Parchedig Wil Evan ar ran merch Taliesin, Mari Gwenddydd Morgan, Caerffili. 'Mair Taliesin' oedd Meistres y Gwisgoedd i'r Orsedd o 1900 hyd 1923, a dymunai i'r Gadair hanesyddol hon gael ei harddangos. Yn y 70au, a'r Capel wedi cau, symudwyd y Gadair.

Yn ôl rhai bu am gyfnod ym Mhlas Newydd, Llangollen. Ar Fedi 4, 1998 cafwyd cadarnhad yng ngholofn 'Eisteddfota' y *Daily Post* fod y Gadair yn ddiogel yn Llyfrgell Wrecsam. Erbyn hyn mae yng ngofal Cyngor Treftadaeth Sir Ddinbych, ond dan glo, trist dweud.

Ar gais fe'i harddangoswyd yn Amgueddfa Llangollen yn ystod gaeaf 2009/10 am bedwar mis yn unig. Cawsai Taliesin ei fagu yn y dref ac 'roedd saer y Gadair hefyd yn un o'r dref

Saer y Gadair Ddu

Yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg byddai'n arferiad mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol i gynnal cystadleuaeth i lunio'r Gadair Farddol dderw orau. Enillydd y Fedal Aur a £10 yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1876 oedd 'Tudur Hen' - John Roberts, Osbourne House, Llangollen. Ganwyd ef Awst 21, 1834. Adeiladwr a syrfewr i Gyngor Tref Llangollen oedd Morris Roberts, ei dad, a bu'n gyfrifol am adeiladu rhan helaeth o dai a siopau Stryd y Castell gan gynnwys Neuadd y Dref a Gorsaf yr Heddlu.

'Roedd y teulu yn dra adnabyddus ledled y wlad fel seiri dodrefn, a bu John yn fuddugol mewn llawer eisteddfod am wneud y Gadair Farddol, cyn trosglwyddo'r gwaith i'w feibion Austin a Morris Henry Roberts. Daethant hwythau'n grefftwyr medrus fel eu tad. Enillodd Morris y gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl ac yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain 1887.

'Roedd pob cadair wedi ei cherfio'n unswydd ar gyfer pob Eisteddfod, e.e. gwelir Aderyn Lerpwl (*Liver Bird*) ar Gadair Lerpwl, a'r arfbais frenhinol ar Gadair Llundain.

Y gobaith bellach yw cael y Gadair Ddu yn ôl i Lyfrgell Wrecsam erbyn yr Eisteddfod eleni.

Hyd yma ni fu ond dwy Gadair Ddu ac ychydig sy'n sylweddoli mai'r Gadair Ddu hanesyddol gyntaf oedd CADAIR DDU EISTEDDFOD WRECSAM 1876!

Cofiwch wneud ymholiadau os byddwch yn ymweld â Wrecsam yr haf hwn!

(Y Dr David ac Enid Roberts (Mae'r Dr David Roberts yn or-nai i saer y Gadaur Ddu)

SUL Y MAER

Hyfryd oedd gweld y capel yn llawn ar gyfer Sul y Maer, sef y bore Sul cyntaf o Orffennaf, pryd y daeth dros 70 o gynghorywr a meiri eraill i ddymuno'n dda i Faer newydd Bangor, Mr Huw Williams. Darllenwyd o'r Gair gan y Maer a'i ddirprwy, Mr Bryn Hughes, ac offrymwyd gweddïau gan y Cynghorwyr John Wynn Jones a Dewi Llywelyn.

Bu i'r Parti Merched gydganu emyn 93. Y gyfeilyddes i'r gwasanaeth oedd Mrs Elizabeth Evans. Gwefreiddiwyd nifer o'r gwahoddedigion wrth weld y plant yn dod ymlaen yn eu ffordd arferol i ddweud eu hadnodau a phenillion. Dywedodd y Gweinidog air pwrpasol wrthynt yn seiliedig ar brofiad y Maer o fod yn ddyfarnwr pêl-droed flynyddoedd yn ôl.

Uchafbwynt y gwasanaeth oedd pregethu ein Gweinidog. Seiliodd ei neges ar y gair 'llaeth', gan gymharu'r Maer i Moses yn arwain yr Israeliaid gynt trwy'r anialwch i wlad yn 'llifeirio' o laeth a mêl'. Ond gan fod y llaeth hwn yn medru suro, pwysleisodd yr angen am 'ddidwyll laeth y Gair', trwy godi ei destun o 1 Pedr 2 : 2

'Fel babanod newydd eu geni, blysiwch am laeth ysbrydol pur, er mwyn ichwi drwyddo gynyddu i iachawdwriaeth.'

MAWL Y PLANT

Bore Sul, 15 Mai, cafwyd cymanfa fywiog iawn yn Bethania, Felinheli. O dan arweiniad medrus Susan Williams, gyda'i hallweddellau, canwyd nifer fawr o emynau plant, rhai ohonynt yn gofyn cryn symud ar ran y gynulleidfa – roedd yna dipyn o chwythu, ac ambell i asgwrn i'w glywed yn clecian, yn enwedig ymhlith rhai o'r oedolion, wrth iddynt ofyn pethau anghyfarwydd gan eu cymalau druan! Doedd y plant, ar y llaw arall, yn cael dim trafferth yn y byd i symud a chanu'r un pryd. Bu'n gyfle hefyd i wobrwyo plant yr ofalaeth am ddysgu'r Llafur Cof – aeth pawb adref gyda sticer, tystysgrif a phres poced derbyniol iawn. Roeddent yn werth eu gweld yn y sêt fawr yn eu dillad gorau.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Y DIGWYDDIADUR

Gorffennaf 16eg	Trip yr Ysgol Sul
Gorffennaf 17eg	Gwyl Pentymor

Cyrsiau Coleg Y Bala

Gorffennaf 19 – 23	Cwrs Ieuenctid
Awst 12 – 19	'Souled Out'
Awst 22 – 25	Anrhefn Awst
Medi 4ydd	Ail ddechrau Ysgol Sul
Medi 14eg	Ail ddechrau CIC Bang
Medi 15fed	Ail ddechrau CIC Bach
Hydref 21ain	Cyngerdd Abergwyngregyn gyda Aelwyd yr Ynys

Bedyddiau diweddar

Hannah Mair, merch Gareth a Elaine Jones a Lleu James Ifan, mab Aled a Llio Ifan